## Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

### Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)2392(FM) a gyhoeddwyd gan Ieuan Wyn Jones, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, ar 14 Rhagfyr 2009

**At Michael German:**

Rwy'n ymateb yn dilyn Cwestiynau'r Prif Weinidog ar 17 Tachwedd, pan y cafwyd cwestiwn gennych ynghylch cwblhau y gwaith deuoli ar yr A465, fel rhan o raglen adfywio Blaenau'r Cymoedd.

Wrth lansio'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol ar 15 Gorffennaf, gwnes ymrwymiad i gadw at amserlen cwblhau 2020 a etifeddais fel Gweinidog Trafnidiaeth.

Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol drafft yn cynnwys ymrwymiad i gwblhau'r gwaith deuoli ar ffordd A465 Blaenau'r Cymoedd o Frynmawr i Dredegar, a dechrau o Gilwern i Frynmawr, erbyn 2014. Mae'r Cynllun Trafnidiaeth Cenedlaethol yn ein hymrwymo i gwblhau'r rhannau sy'n weddill o Dowlais Top i'r A470, ac o'r A470 i Hirwaun, erbyn 2020.

Roedd angen imi edrych ar amrywiol ffrydiau ariannu i ddatblygu'r cynllun, ac i sicrhau ein bod mewn sefyllfa lle nad oes unrhyw gyfyngiadau i gwblhau'r rhaglen ddeuoli cyn 2020. Mae hon yn amserlen realistig, gost-effeithiol wrth ystyried cyllidebau Trafnidiaeth Llywodraeth y Cynulliad, ymrwymiadau eraill Cymru'n Un a chwblhau'r prosesau statudol yn llwyddiannus.

Rwy'n trefnu i gopi o'r llythyr hwn gael ei roi yn y Llyfrgell.